Huw Morris
Director, Skills, Higher Education and Lifelong Learning
Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Nick Ramsey AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Dyddiad: 18 Gorffennaf 2017

Annwyl Nick

**Ymateb i Bwyntiau Gweithredu a gofnodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf ynghylch adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Drosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach.**

Roedd nifer o bwyntiau gweithredu a gofnodwyd yn y cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac mae'n bleser gennyf yn awr allu rhannu'r ymatebion gyda chi yn Atodiad A i'r llythyr hwn.

Yn Gywir

Huw Morris
*Cyfarwyddwr y Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes*

cc Blwch Post y Cabinet a'r Cyfarfod Llawn
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Blwch Post CGU Llywodraeth Cymru



Parc Cathays ● Parc Cathays
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Ffôn 02920 825899
Huw.morris@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.cymru.gov.uk

Atodiad A

**Cam Gweithredu 1**
**Cyfran y gyllideb sy'n cael ei wario ar y Gymraeg a'r Saesneg yn y sector addysg bellach**

Oherwydd y ffordd yr ydym yn ariannu rhaglenni dysgu nid yw'n bosibl nodi pa gyfran o'r gyllideb sy'n cael ei gwario ar ddarpariaeth Gymraeg a pha gyfran sy'n cael ei gwario ar ddarpariaeth Saesneg oherwydd mewn llawer o achosion, mae'r rhaglen yn cynnwys rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Cymraeg a'r Saesneg.

Mae gwybodaeth, sydd ar gael ar StatsCymru, yn dangos bod cyfanswm o 7.8% o'r holl weithgareddau yn cynnwys Dysgu Cyfrwng y Gymraeg a Dwyieithog.

Er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg rhoddir ymgodiad o £3.9 miliwn i golegau i gefnogi ac annog datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol a darpariaeth newydd

**Cam Gweithredu 2**
**Esboniad manwl o'r effaith ar gyllid Ysgolion yr 21ain ganrif o fis Mawrth 2019 ymlaen yn sgil y broses o adael yr UE;**

Ariennir y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw'n derbyn unrhyw gyllid ychwanegol drwy'r cronfeydd ERDF / ESF.

Ar hyn o bryd, mae effaith Brexit ar economi'r DU ac unrhyw effeithiau canlyniadol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn ansicr. Fodd bynnag, yn ystod y refferendwm rhoddwyd sicrwydd i bleidleiswyr gan y rhai a oedd yn ymgyrchu dros adael yr Undeb Ewropeaidd na fyddai Cymru geiniog yn waeth ei byd o ganlyniad i hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dwyn Llywodraeth y DU i gyfrif am hynny. Rydym yn dibynnu ar y Trysorlys i gynnal ein gwariant ar y lefelau presennol.

**Cam Gweithredu 3**
**Anfon y dyraniad o ran cyllid cyfalaf o'r gyllideb ddrafft, os yw'n gallu.**

Mae'r cyllidebau a gyhoeddwyd ar gyfer 2017/18 yn dangos bod cyllideb sylfaenol fwy yn cael ei chadw ar gyfer y Rhaglen yn ystod y cyfnod hyd at 2020/21. Mae'r gyllideb ar hyn o bryd yn £100.813 miliwn y flwyddyn.

**Cam Gweithredu 5**
**Manylion am sut y mae dysgwyr o'r gymuned Teithwyr yn cael eu cefnogi yn y sector addysg bellach.**

Yn anffodus, er ein bod yn ymwybodol bod colegau yn cefnogi dysgwyr o'r Gymuned Teithwyr, nid ydym yn casglu gwybodaeth sy'n nodi'r dysgwyr hyn yn benodol. Byddwn yn gweithio gyda ColegauCymru i nodi'r dulliau cymorth a ddefnyddir ym mhob sefydliad er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi'r Gymuned Teithwyr yn y ffordd orau bosibl.